
Adroddiad Monitro blynyddol Cynllun Iaith

Gymraeg 1 Ebrill 2021
— 31 Mawrth 2022

Ynglŷn â ni

Ein gweledigaeth yw nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer mwy na 758,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae wrth wireddu hyn.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo addysg uchel a safonau proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwreagedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwreagedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bach iawn o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fo angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaedd pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarferol a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn gweithio'n galed i gynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u grymuso i lywio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau'n ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

Llywodraethu ein gwaith iaith Gymraeg

Mae aelodau'r Cyngor, y Tîm Gweithredol a'r holl gyflogeion yn chwarae rhan wrth gyflawni ein cynllun iaith Gymraeg. Nodir y cyfrifoldebau allweddol isod:

- Mae'r Cyngor yn gyfrifol am osod a goruchwyllo ein strategaeth gyffredinol.
- Mae'r Tîm Gweithredol yn gyfrifol am weithredu ein strategaeth ac am osod polisiau mewnol a chynlluniau busnes sy'n cefnogi cyflawni'r cynllun iaith Gymraeg.
- Mae gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol gyfrifoldeb cyffredinol am gyflwyno'r cynllun iaith Gymraeg, a'n Cyfarwyddwr Gweithredol Ymarfer Proffesiynol yw'r arweinydd gweithredol ar gyfer Cymru. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Ymarfer Proffesiynol wedi ymgymryd â'r rôl hon ers mis Hydref 2021, a chyn hynny, ein Prif Weithredwr a Chofrestrydd oedd yn dal y rôl hon.
- Mae'r tîm Polisi (DU a Rhyngwladol) yn gyfrifol am fonitro newid deddfwriaethol a'r effaith ar ein cynllunio busnes mewn perthynas â chydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae hyn yn cynnwys cychwyn ar y gwaith sydd ei angen i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg, gyda'r fframwaith llywodraethu cywir yn ei le ar gyfer sicrwydd parhaus ar y cydymffurfi hwn.
- Mae gennym dimau sy'n cymryd cyfrifoldeb am ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, ac maent yn cefnogi ein cyflogeion i deimlo'n hyderus ac yn gymwys i gydymffurfio â'n cynllun iaith Gymraeg, gan gynnwys ein cyfarwyddiaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, a'n tîm Dysgu a Datblygu Sefydliadol.

Ein hymrwymiad i'r Gymraeg

Yn unol ag Adran 21 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, rydym yn glir ynghylch yr angen i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Cymeradwywyd ein cynllun iaith Gymraeg gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Ionawr 2011.

Nod yr adroddiad monitro blynyddol hwn yw crynhoi ein cynnydd wrth weithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022, yn unol â gofynion Comisiynydd y Gymraeg. Mae adroddiad cryno (yn seiliedig ar gwestiynau gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg) i'w weld yn Atodiad 1.

Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio'n gyson â'n cynllun iaith Gymraeg, ac ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg ac eraill i fod yn ymatebol ac yn wybodus yn ein dull o ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein gwaith yn y maes hwn, a bydd yn hygyrch i gwsmeriaid drwy drafodaeth gyhoeddus mewn sesiwn Cyngor yn ogystal â chael ei gyhoeddi ar ein gwefan, yn unol â blynyddoedd blaenorol.

Gweithgarwch diweddar

Ym mis Hydref 2021, trosglwyddwyd rôl Cyfarwyddwr Arweiniol Cymru o'n Prif Weithredwr a Chofrestrydd, Andrea Sutcliffe, i'n Cyfarwyddwr Gweithredol Ymarfer Proffesiynol, yr Athro Geraldine Walters.

Bob chwe wythnos, mae ein gweithgor mewnol Cymru yn cyfarfod i drafod diweddariadau allweddol sy'n ymwneud â'n rôl reoleiddiol yng Nghymru, ac i ystyried safbwynt pobl sy'n gweithio ac yn byw yng Nghymru ar ddatblygiadau polisi a chyhoeddiadau arfaethedig yr NMC. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cydweithwyr o bob rhan o'r NMC.

Yn ystod y cyfnod adrodd 2021 – 2022, cynhaliodd yr NMC nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru, gan gynnwys:

- Bob chwe wythnos roedd Andrea Sutcliffe neu Geraldine Walters yn cyfarfod â Sue Tranka (Prif Swyddog Nyrsio (CNO) Cymru) i drafod gwaith allweddol ar gyfer yr NMC, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i gofrestr dros dro Covid-19, ein rhaglen waith ar gyfer diwygio rheoleiddiol, a'n safonau ôl-gofrestru.
- Fe wnaeth Andrea Sutcliffe, Geraldine Walters a Sam Donohue (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Allgymorth yn yr NMC) fynychu cyfarfodydd misol Prif Swyddog Nyrsio a Phrif Swyddog Bydwreigiaeth (CMidO) y pedair gwlad i gasglu a rhannu diweddariadau gyda CNOs a CMIOs. Mae Sue Tranka, Gill Knight (Swyddog Nyrsio) a Karen Jewel (Prif Swyddog Bydwreigiaeth Cymru) yn mynychu'r cyfarfodydd hyn.
- Ym mis Ebrill 2021, **cyhoeddwyd** diweddariad gennym yn croesawu Sue Tranka i'w rôl fel Prif Swyddog Nyrsio Cymru, a mynegwyd ein diolchiadau i'r Athro Jean White CBE fel Prif Swyddog Nyrsio Cymru sy'n gadael.
- Ym mis Mai 2021, cyfarfu Geraldine Walters ac Anne Trotter (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Addysg a Safonau yn yr NMC) â Gareth Howells (Prif Swyddog Nyrsio dros dro Cymru) i drafod yr ymgynghoriad ar safonau ôl-gofrestru.

- Ym mis Mehefin 2021, fe wnaethom gynnal gweithdy i randdeiliaid yng Nghymru, dan arweiniad Andrea Sutcliffe, i glywed gan ein rhanddeiliaid ar ymateb yr NMC i Covid-19, goblygiadau hyn i Gymru yn y dyfodol a chyfleoedd ar gyfer cydweithio.
- Ym mis Hydref 2021, fe wnaethom gynnal digwyddiad bord gron ar gyfer Prif Weithredwyr i drafod ein rhaglen waith ar gyfer diwygio rheoleiddio. Mynychwyd hwn gan Sue Tranka, Gillian Knight, a Lisa Llewelyn (Cyfarwyddwr Addysg Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru).
- Ym mis Tachwedd 2021, fel rhan o'i gyfnod sefydlu, cyfarfu Syr David Warren (Cadeirydd yr NMC) â Chris Jones (Cadeirydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru), a chyfarfu ar wahân â Mick Giannasi (Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru).
- Ym mis Tachwedd 2021, cyfarfu Jasmine Bailey (Swyddog Materion Cyhoeddus yn yr NMC) â Chlerc Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Arbenigwr Iechyd yn uned ymchwil y Senedd i drafod ein blaenoriaethau cyffredin a'n ffyrdd o weithio.
- Ym mis Rhagfyr 2021, fel rhan o'i gyfnod sefydlu, cyfarfu Syr David Warren â Sue Tranka.
- Ym mis Rhagfyr 2021, cyfarfu Syr David Warren, Andrea Sutcliffe a Geraldine Walters â'r Farwnes Morgan, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, fel cyfarfod rhagarweiniol. Fe wnaethon nhw drafod ein llwyth achosion Addasrwydd i Ymarfer, canolfannau Archwiliad Clinigol Strwythuredig Gwrthrychol (OSCE), recriwtio rhyngwladol, a chasglu data am y Gymraeg.
- Ym mis Ionawr 2021, cyfarfu Geraldine Walters â Gill Knight i drafod cyfleoedd canolfannau OSCE yng Nghymru.
- Ym mis Mawrth 2022, dechreuodd Geraldine Walters gyfarfod â Lisa Llewelyn fel rhan o gyfres o sesiynau dal i fyny rheolaidd.
- Ym mis Mawrth 2022, mynychodd Geraldine Walters y seminar 'Datblygiadau Rheoleiddio a'r Cyd-destun Cymreig' a drefnwyd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol.

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae Kristian Garsed, ein Cynghorydd Rheoleiddio ar gyfer Cymru yn ein Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr, wedi ymgysylltu â chyflogwyr a rhanddeiliaid yn y ffyrdd dilynol:

- Rhannu diweddariadau ysgrifenedig i Gyfarwyddwyr Nyrsio Gweithredol yn GIG Cymru, gan roi gwybod iddynt am ddatblygiadau allweddol, newidiadau polisi a chyhoeddiadau gan yr NMC.
- Cynnig diweddariadau rheoleiddiol a gweithdai rhithwir i gyflogwyr ynghylch sut rydym yn rheoleiddio a'r broses Addasrwydd i Ymarfer.
- Darparu cymorth rheolaidd i holl gyflogwyr ein gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol yng Nghymru ar draws iechyd a gofal a'r sector annibynnol, ar ffurf cyfleoedd cyngor, gwybodaeth a dysgu rheoleiddiol ad hoc.
- Cynnal y fforwm rheolaidd ar gyfer yr NMC, y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) yng Nghymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) i rannu gwybodaeth, cudd-wybodaeth, ystyriaethau polisi a blaenoriaethau a rennir ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Hefyd yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethom barhau i ystyried y Gymraeg ac anghenion siaradwyr Cymraeg yn ofalus fel rhan o'n hymateb parhaus i bandemig Covid-19. Fe wnaethom fyfyrion ar hyn yn ein **Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Rheoleiddiol (EQIA) Covid-19** a gyhoeddwyd ar ein gwefan ym mis Chwefror 2022. Roedd gennym gam gweithredu parhaus yn ein cynllun gweithredu EQIA i sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol a gynhyrwyd gennym i gefnogi gweithwyr gofal iechyd a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau mewn perthynas â'n hymateb i'r pandemig, hefyd yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg. Mae ein hasesiad iaith Gymraeg i'w weld yn adran 5 o'r EQIA.

Ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaethom **ymateb** i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar eu 'Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol', ac ym mis Hydref 2021, fe wnaethom **ymateb** i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Gynllun Gweithredu LHDT+ Cymru'.

Ym mis Mawrth 2022, fe wnaeth ein Rheolwr Rheoleiddio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant hyrwyddo ein cynllun iaith Gymraeg yn fewnol i gydweithwyr trwy Workplace (ein platfform cyfathrebu mewnol) mewn post i nodi Dydd Gŵyl Dewi.

Blaenoriaeth strategol

Yn ein Strategaeth 2020 - 2025, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020, fe'i gwnaed yn glir bod 'angen cysylltiadau cryf ar draws pedair gwlad y DU a gwerthfawrogiad o'r cyd-destunau amrywiol ym meysydd gwleidyddol, darparu gwasanaethau a chynllunio gweithlu', ac fe wnaethom ymrwymo i 'adolygu a datblygu ein presenoldeb' yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU.

Mae ein gwerthoedd a'n hymddygiadau cysylltiedig yn sail i'n dull o gydymffurfio â'r Gymraeg, fel y nodir isod:

Teg

Byddwn yn sicrhau bod pobl sy'n rhyngweithio â'n gwasanaethau yn cael cyfleoedd teg i gyrchu gwybodaeth yn Gymraeg, ac yn gallu ymddiried yn ein hymrwymiad i'n cynllun iaith Gymraeg.

Caredig

Rydym yn gwerthfawrogi pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, a byddwn yn barchus wrth ymdrin â cheisiadau Cymraeg. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac yn hyderus i ymgysylltu â ni yn Gymraeg.

Cydweithredol

Byddwn yn buddsoddi yn ein perthnasoedd presennol, gan gynnwys gyda Chomisiynydd y Gymraeg, ac yn ymgysylltu â chymunedau Cymraeg ehangach, gan gydnabod ein bod ar ein gorau pan fyddwn yn gweithio'n dda gydag eraill.

Uchelgeisiol

Byddwn yn agored i ffyrdd newydd o ddiwallu ein gofynion iaith Gymraeg, a byddwn bob amser yn anelu at wneud ein gorau dros siaradwyr y Gymraeg.

Cynnydd ar ein camau gweithredu blaenorol

Yn ein hadroddiad monitro blynyddol blaenorol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, fe wnaethom ymrwymo i'r camau y byddem yn eu cymryd i barhau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n cynllun iaith Gymraeg. Mae'r camau gweithredu yr ymrwymwyd iddynt, a'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud yn ôl y camau hyn, wedi'u hamlinellu isod:

1. Nodi ein hymrwymiad a'n hymagwedd at gydraddoldeb i'r Gymraeg yn ein cynllun EDI wedi'i ddiweddarau erbyn diwedd 2021

Fe wnaethom ddatblygu ein cynllun EDI ar gyfer 2022 – 2025, i fynd â ni hyd at ddiwedd ein cyfnod strategol presennol, rhwng Medi 2021 a Mawrth 2022, a chymeradwywyd y cynllun hwn gan ein Cyngor ym mis Mai 2022. Un o'r camau gweithredu lefel uchel yr ydym wedi ymrwymo iddo'n gyhoeddus yn ymwneud â'n cynllun iaith Gymraeg:

'Sefydlu prosesau llywodraethu clir ar gyfer monitro materion lleol ar draws pedair gwlad y DU, gan gynnwys cydymffurfio â'n cynllun iaith Gymraeg a deddfwriaeth cydraddoldebau Gogledd Iwerddon.'

Mae gennym hefyd gamau gweithredu yn ein cynllun cyflawni manwl sy'n ymwneud â'n cynllun iaith Gymraeg, neu ein hymgysylltiad â phedair gwlad y DU. Dylai'r camau hyn sicrhau ein bod yn rheoleiddiwr iechyd a gofal sydd â'r adnoddau gorau i gefnogi siaradwyr Cymraeg i gael mynediad cyfartal, a'n bod yn cael gwybod am effaith ein gwaith ar bobl yng Nghymru.

Mae camau gweithredu perthnasol yn ein cynllun cyflawni manwl yn canolbwyntio ar baratoi ar gyfer ein cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg; sicrhau bod gennym gysylltiadau â rhanddeiliaid Cymreig sy'n gweithio ar gydraddoldeb neu sy'n profi anghydraddoldebau penodol; a'n bod yn dadansoddi ac yn adrodd yn briodol ar ein data, ein gwybodaeth a'n mewnwleidiadau mewn ffordd sy'n ein galluogi i ddeall materion fel y'u profir ar draws pedair gwlad y DU.

Bydd ein cynllun EDI llawn yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2022.

2. Ehangu ein hymgysylltiad ag anghenion gweithwyr proffesiynol a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau yng Nghymru, a'n dealltwriaeth ohonynt

Mae ein hymrwymiad i sicrhau bod llais pobl o Gymru yn llywio ac yn llunio ein gwaith, yn rhan allweddol o'n gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae rhai o'r camau a gymerwn i ddod â'r ymrwymiad hwnnw'n fyw yn cynnwys:

- Mae arolygon ymgynghori cyhoeddus bob amser ar gael yn Gymraeg ac yn cael eu rhannu ymhlith grwpiau rhanddeiliaid Cymru.
- Ein Fforwm Llais y Cyhoedd yw'r grŵp allweddol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn yr NMC ac mae cynrychiolaeth o Gymru ar yr aelodaeth.
- Gwahoddwyd corff sy'n cynrychioli'r cyhoedd yng Nghymru i gymryd rhan yn y cyfweiliadau ar gyfer ein hymgynghoriad Saesneg.
- Rydym yn parhau i weithio i feithrin perthnasoedd agos â sefydliadau yng Nghymru fel bod ein hymgysylltiad yn ystyrlon iddynt hwy a'r bobl y maent yn eu cefnogi a/neu'n gweithio gyda nhw.

3. Ymwreiddio dull systematig o gydymffurfio â'r Gymraeg ar draws y sefydliad gan ddefnyddio ein prosesau llywodraethu sefydledig.

Bydd ein paratodau ar gyfer cyflwyno safonau'r Gymraeg, fel y disgrifir uchod, yn sicrhau ein bod yn parhau i fod mewn sefyllfa dda i ymwreiddio a dangos ein hymrwymiad i gydraddoldeb i siaradwyr Cymraeg yn ein prosesau.

Safonau'r Gymraeg

Rydym ni, gyda'r rheolyddion proffesiynol eraill, wedi gweithio'n agos gyda llywodraeth Cymru ar ei safonau Cymraeg newydd ac wedi croesawu'r cyfle i ymateb i'w hymgyngoriad yn 2020, gan adeiladu ar ein hymateb yn 2016 i gynigion iaith Gymraeg llywodraeth Cymru.

Wrth baratoi ar gyfer ein cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (WLSR), rydym yn adolygu'r mesurau sydd gennym eisoes ar waith i sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn bennaf yn unol â'n cynllun iaith Gymraeg.

Rydym yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i sicrhau ein bod yn deall yn iawn pa rai o'r Safonau newydd fydd yn berthnasol i ni. Ym mis Mehefin 2022, aethom i gyfarfod llywodraeth Cymru lle rhannwyd y canlyniadau a'r ymateb i ymgynghoriad WLSR 2020 gyda ni, ac rydym yn cysylltu â'r rheolyddion gofal iechyd eraill i sicrhau cysondeb o ran ymagwedd ar draws rheoleiddwyr.

Rydym wedi sefydlu gweithgor mewnol sydd â'r dasg o sicrhau bod gennym y fframwaith llywodraethu cywir yn ei le i allu gweithio'n rhagweithiol tuag at gydymffurfio unwaith y daw'r Safonau i rym ar 31 Hydref 2022. Rydym hefyd wedi diweddarau ein gweithgor Cymraeg mewnol. fel y gallant ystyried goblygiadau'r Safonau newydd yn eu gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwybodaeth a gwaith datblygu polisi.

Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf

Bydd ein gweithgarwch ar gyfer 2022 - 2023 yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod mewn sefyllfa i ymwreiddio a dangos ein bod yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn effeithiol ar ôl i'r rhain gael eu cyflwyno gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Atodiad 1

Adroddiad cryno ar weithrediad y cynllun iaith Gymraeg o 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022

Asesiad effaith polisi

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer a chanran y polisiâu (gan gynnwys y rhai a adolygwyd neu a ddiwygiwyd) lle rhoddwyd ystyriaeth i'r effeithiau y byddai'r polisi'n eu cael ar y defnydd o'r Gymraeg.

Ein gwaith

Rydym yn parhau i gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (EQIA) fel rhan o'r gwaith o ddatblygu polisiâu a phrosesau newydd, ac unrhyw adolygiad o'n polisiâu neu Safonau presennol. Mae ein fframwaith EQIA yn gofyn yn benodol i gydweithwyr ystyried effeithiau unrhyw newidiadau i'n polisiâu, prosesau neu Safonau, ar siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi cynnal adolygiadau o'n **Safonau hyfedredd ar gyfer cymwysterau ymarfer arbenigol nyrsio cymunedol (SPQ)** a'n **Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (SCPHN)** a'r **Safonau ar gyfer rhaglenni ôl-gofrestru**, cyfatebol, yr oedd pob un ohonynt yn cynnwys cwblhau EQIA ac ystyried effeithiau posibl newidiadau i'n Safonau ar siaradwyr Cymraeg. Drwy ein EQIAs ni welsom unrhyw effeithiau na chanlyniadau anfwriadol posibl ar gyfer siaradwyr Cymraeg, ond byddwn yn parhau i gysylltu â rhanddeiliaid o bob rhan o'r DU, gan gynnwys Cymru, wrth i ni ystyried rhoi'r Safonau newydd hyn ar waith.

Rydym wedi datblygu a pharhau i ddiweddarau EQIAs ar gyfer ffrydiau gwaith ar wahân ein rhaglen waith ar gyfer diwygio rheoleiddiol. Fe wnaethom hefyd ddatblygu EQIA ar gyfer ein hadolygiad o'n gofynion iaith Saesneg, a chyhoeddwyd crynodeb o'r EQIA hwn yn **Gymraeg** ac yn **Saesneg** fel rhan o'n hymgyngoriad ar yr adolygiad hwn.

Ym mis Tachwedd 2021 fe wnaethom gyhoeddi fersiwn chwech o'n **EQIA Rheoleiddiol Covid-19** a oedd yn cynnwys ein hasesiad o effaith y newidiadau a wnaethom mewn ymateb i Covid-19 ar siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Enghraifft o asesiad y bernir ei fod yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg a manylion am sut y diwygiwyd y polisi o ganlyniad.

Ein gwaith

Nid ydym wedi cynnal unrhyw Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a arweiniodd at ddiwygio polisi arfaethedig neu bolisi presennol yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Cyhoeddiadau

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd.

Ein gwaith

Mae 2806 o ddogfennau wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan ar hyn o bryd.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg.

Ein gwaith

Mae 40 o ddogfennau ar ein gwefan sydd ar gael yn Gymraeg, gan gynnwys adroddiadau blynyddol, dogfennau safonau, dogfennau ail-ddilysu a dogfennau safonau addysg.

Mae hyn yn unol â'n cynllun iaith Gymraeg sy'n dweud y bydd gwybodaeth sydd wedi'i hanelu at gleifion ac aelodau'r cyhoedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cyhoeddir safonau, canllawiau a deunydd technegol neu arbenigol arall a anelir at weithwyr proffesiynol ac nid yn uniongyrchol at y cyhoedd yn Saesneg.

Fodd bynnag, rydym yn cynnig cyfieithiad i'r Gymraeg ar gais. Yn ogystal â gofynion ein cynllun rydym yn cyfieithu deunyddiau pan ydym yn ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, er enghraifft ein deunyddiau ymgynghori a dogfennau ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu yng Nghymru.

Cwynion

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer yr holl gwynion a dderbyniwyd am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru.

Ein gwaith

Fe gawsom 207 o atgyfeiriadau mewn perthynas â nyrs, bydwaig neu gydymaith nyrsio cofrestredig â chyfeiriad cofrestredig yng Nghymru rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn Gymraeg am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru.

Ein gwaith

Ni chawsom unrhyw atgyfeiriadau yn Gymraeg a oedd yn ymwneud â nyrs, bydwaig neu gydymaith nyrsio cofrestredig â chyfeiriad cofrestredig yng Nghymru rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'i gynllun iaith Gymraeg.

Ein gwaith

Ni dderbyniodd y tîm Ymholiadau a Chwynion Cwsmeriaid unrhyw gwynion corfforaethol mewn perthynas â chydymffurfiaeth yr NMC â'r cynllun iaith Gymraeg yn y cyfnod adrodd 2021 - 2022.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Eglurwch natur unrhyw gwynion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'i Gynllun Iaith Gymraeg.

Ein gwaith

Amherthnasol - ni dderbyniwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â chydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd 2021 - 2022.

Gwefan

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Canran gwefan y sefydliad sydd ar gael yn Gymraeg.

Ein gwaith

Mae llai nag un y cant o'n gwefan ar gael yn Gymraeg.

Mae gennym un brif **dudalen gyflwyno** yn Gymraeg ar y wefan, y gellir ei chyrchu trwy fotwm 'Cymraeg' yn y bar llywio. Rydym yn diweddarau'r **dudalen** hon o bryd i'w gilydd. Mae gennym hefyd un dudalen sy'n amlinellu ein cynllun iaith Gymraeg.

Yn ogystal â hyn mae gennym dros 40 o gyhoeddiadau Cymraeg ar ein gwefan, gan gynnwys adroddiadau blynyddol, dogfennau safonau a chanllawiau ailddilysu. Mae hyn yn cynyddu presenoldeb y Gymraeg ar ein gwefan.

Rydym hefyd yn cynnig cyfieithiad i'r Gymraeg ar gais.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Tystiolaeth yn ymwneud â gwelliannau neu gynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar y wefan.

Ein gwaith

Un o'n **blaenoriaethau corfforaethol** ar gyfer 2022 – 2025 yw 'creu gwefan fodern a hygyrch sy'n portreadu ein gwerthoedd yn effeithiol, yn darparu ein gwasanaethau craidd, ac yn gwella ein cyfathrebu ac ymgysylltu.' Hyd yma mae ein rhaglen i adolygu ein gwefan wedi cynnwys ymchwil darganfod a gynhaliwyd yn ystod 2021 – 2022 a oedd yn cynnwys mewnwleidiadau gan siaradwyr Cymraeg.

Rydym hefyd wedi cynnal EQIA ar ein dull o gynnal yr ymchwil hwn, ac ymchwil pellach yn y dyfodol, a oedd yn cynnwys ystyried effaith ein dulliau ymchwil ar siaradwyr Cymraeg.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Tystiolaeth yn ymwneud â'r broses a ddefnyddir i sicrhau bod cynnwys presennol, diweddariadau a chynnwys newydd, yn cydymffurfio â gofynion y cynllun iaith Gymraeg.

Ein gwaith

Pryd bynnag y cynhyrchir cyhoeddiad, gwneir asesiad gan y tîm Cyfathrebu Corfforaethol i weld a oes angen cynhyrchu fersiwn Gymraeg hefyd ar gyfer y cyhoeddiad penodol hwnnw.

Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddir i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y sefydliad a thystiolaeth o unrhyw gynnydd dilynol yn nefnydd y cyhoedd o'r gwasanaethau.

Ein gwaith

Rydym yn cyhoeddi 'pecynnau' o ddeunyddiau ar ein gwefan, a fydd fel arfer ar gyfer dogfennau cyhoeddus pwysig, yn cynnwys fersiwn Saesneg o gyhoeddiad, fersiwn Gymraeg a fersiwn hawdd ei darllen. Rydym yn cyfeirio at y pecynnau hyn o ddeunyddiau trwy ein cylchlythyrau a chyfathrebiadau e-bost, sy'n golygu bod pobl yn cael eu cyfeirio at dudalennau glanio sydd â'r holl fersiynau sydd ar gael wedi'u cyflwyno gyda'i gilydd er hwylustod. Mae fersiynau Cymraeg o ddogfennau bob amser yn cael eu cyflwyno'n glir ochr yn ochr â'r fersiynau Saesneg.

Mae **tudalen ar ein gwefan** sy'n rhoi manylion ein cynllun iaith Gymraeg a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig. Gellir cyrchu hwn drwy fotwm 'Cymraeg' ar frig ein bar llywio, ac fe'i cyflwynir yn Gymraeg fel y rhagosodiad.

Nid ydym wedi derbyn unrhyw geisiadau i'n canolfan gyswllt am wybodaeth neu wasanaethau yn Gymraeg, nac unrhyw gŵynion yn ymwneud â'n methiant i ddarparu eitemau wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i asesu ansawdd gwasanaethau Cymraeg y sefydliad (e.e. drwy asesu profiad defnyddwyr gwasanaeth presennol/posibl).

Ein gwaith

Er nad ydym wedi cael unrhyw adborth gan gwsmeriaid yn sôn am y Gymraeg, rydym yn asesu profiad defnyddwyr presennol trwy wahoddiad i'n harolygon adborth cwsmeriaid. Mae cwsmeriaid yn sgorio eu boddhad ac yn cael y cyfle i adael sylwadau ychwanegol ar unrhyw bwnc y dymunant, megis adborth ar gyfathrebu yn y Gymraeg. Mae dadansoddiadau meintiol ac ansoddol o ymatebion yn cael eu casglu mewn adolygiadau boddhad cwsmeriaid, sy'n ffurfio'r sylfaen ar gyfer gwella profiad ein cwsmeriaid.

Achosion addaswydd i ymarfer

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yng Nghymru.

Ein gwaith

Yn ystod 2021 - 2022, fe wnaethom gynnal naw digwyddiad Pwyllgor Addaswydd i Ymarfer (FtP) yng Nghymru (ystyriwyd 12 achos yn y digwyddiadau hyn). Cynhaliwyd un digwyddiad Pwyllgor Ymchwilio hefyd gyda dau achos wedi'u rhestru (cafodd un o'r achosion hyn ei ystyried yn rhithwir o'n lleoliad yng Nghaerdydd ac ni wrandawyd ar yr achos arall y tro hwnnw).

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer y gwrandawiadau lle'r oedd tyst yn dymuno siarad Cymraeg.

Ein gwaith

Ni chynhaliwyd unrhyw wrandawiadau yn ystod y cyfnod adrodd pan fynegodd tyst ddymuniad i siarad Cymraeg.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer y gwrandawiadau lle cyflwynwyd tystiolaeth yn Gymraeg.

Ein gwaith

Ni chynhaliwyd unrhyw wrandawiadau yn ystod y cyfnod adrodd lle cyflwynwyd tystiolaeth yn Gymraeg.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yn Gymraeg.

Ein gwaith

Ni wnaethom gynnal unrhyw wrandawiadau yn ystod y cyfnod adrodd a ddigwyddodd yn Gymraeg.

Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Nifer a chanran staff y sefydliad sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.

Ein gwaith

Mae gan ein cydweithwyr fynediad i gwrs hyfforddi ar-lein dewisol ar godi ymwybyddiaeth o'n cynllun iaith Gymraeg a'i bwysigrwydd. Mae hyn yn rhan o gyfres o gyrsiau ar-lein sydd wedi'u cynllunio i gefnogi cydweithwyr i ddatblygu eu gwybodaeth am ein gwaith a'n rôl fel rheoleiddiwr.

Cwblhawyd y cwrs 21 o weithiau yn ystod y cyfnod adrodd, sy'n cyfrif am 2 y cant o'n gweithlu. Mae hyn yn fras yr un fath â'r cyfnod adrodd 2020 - 2021, lle cwblhawyd 25, gan gyfrif am 2 y cant o'n gweithlu ar y pryd.

Hunan-reoleiddio

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani

Manylion y trefniadau a'r gweithdrefnau y mae'r sefydliad wedi'u mabwysiadu i'w alluogi i hunanreoleiddio'n effeithiol.

Ein gwaith

Rydym wedi parhau i weithredu yn unol ag Adran 21 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, a gyda'n cynllun iaith Gymraeg ein hunain a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Ionawr 2011.

Ar wahân, rydym wedi parhau i wneud paratoadau cyn cyflwyno Rheoliadau Safonau'r Gymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fe wnaethom **ymateb** i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2020 ac rydym wedi monitro'r cynnydd a wnaed a'i effeithiau tebygol arnom ers hynny.

nmc
Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

23 Portland Place,
London W1B 1PZ
+44 20 7637 7181
www.nmc.org.uk

 @nmcnews  @nmcuk

The nursing and midwifery regulator for England, Wales, Scotland and Northern Ireland
Registered charity in England and Wales (1091434) and in Scotland (SC038362)